# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14 Hydref 2025 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dewi Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg |
| **Teitl yr Eitem:** | Ysgol Baladeulyn - Papur cynnig |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Ceisir caniatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Gofynnir am ganiatâd i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig a nodir yn 1.1 am fod angen cyfarch sefyllfa fregus Ysgol Baladeulyn. Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn wedi bod yn isel ers peth amser. Yn ôl niferoedd Medi 2025, dim ond 6 dysgwr llawn amser sy'n mynychu'r ysgol gyda 2 arall yn y meithrin, a dengys rhagamcanion y bydd y niferoedd yn parhau'n isel gyda rhagamcanion o 8 dysgwr llawn amser ar y gofrestr erbyn Medi 2028.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, penderfynodd y Cabinet gefnogi'r argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol Ysgol Baladeulyn gan drafod opsiynau posib yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr a'r pryderon am gynaladwyedd yr ysgol.

3.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau lleol, a cheisio caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddisgyblion y dalgylch yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

### 4. CEFNDIR

4.1 Ysgol gynradd gymunedol yw Ysgol Baladeulyn sydd wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle yn Nyffryn Nantlle. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed ac yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Derbynnir dysgwyr i'r ysgol yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn ddysgwyr llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

4.2 Gyda 6 o ddysgwyr (Derbyn i Flwyddyn 6) ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 55, mae 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 89% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin yn ogystal.

**Cyd-destun Strategol**

4.3 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" ers i'r Cyngor Llawn ei mabwysiadu yn Ebrill 2009.

4.4 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion "Addysg Addas i Bwrpas" sydd bellach yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r egwyddorion hyn yn gweithio tuag at resymoli ystod oedran o fewn dosbarthiadau cynradd a sicrhau amser digyswllt digonol i benaethiaid ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn yr ysgolion cynradd.

**Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig**


4.5 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Y Cod) yn cynnwys gweithdrefn arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau.

4.6 Fe nodir yn y Cod "*Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio.*"

4.7 Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei dynodi yn 'ysgol wledig' at ddiben y Cod. O ganlyniad, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol mewn perthynas â llunio cynigon ar gyfer ysgolion gwledig wrth lunio'r papur cynnig hwn.

**5. SEFYLLFA BRESENNOL YSGOL BALADEULYN**

5.1 Fel y gwelir o'r graff isod, mae gostyngiad sylweddol a chyson wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn. Yn Medi 2017, roedd 23 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 a 6 dysgwr Meithrin yn mynychu'r ysgol, ond erbyn hyn, mae'r niferoedd wedi gostwng i 6 dysgwr llawn amser (Derbyn – Blwyddyn 6) a 2 Meithrin, sy'n cyfateb i ostyngiad o 72% yn niferoedd y dysgwyr.




5.2 O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** – Yn Ionawr 2025, roedd 13 dysgwr llawn amser a 0 dysgwr meithrin yn Ysgol Baladeulyn. Mae'r niferoedd wedi gostwng ymhellach ers hynny gyda 6 dysgwr llawn amser a 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr yn Medi 2025.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2025, mae oddeutu 89% o lefydd gweigion yn yr ysgol (49 mewn nifer). Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang -** Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un Blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn - blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynyddoedd 2 - 6.
- **Rhagamcanion niferoedd** - Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf.
- **Dysgwyr y dalgylch –** Dengys data Medi 2025 mai dim ond 25% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 75% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch
- **Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd –** Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystdo y flwyddyn ariannol 2025-26 (seiliedig ar niferoedd Medi 2024) oedd £56,781.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr –** Cyfartaledd cost fesul dysgwr  yn Ysgol Baladeulyn yn 2025-26 yw £14,953 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,780.

## 6. TRAFODAETHAU LLEOL

6.1 Yn nhymor yr Hydref 2024, bu i swyddogion o'r Adran Addysg gyfarfod â Chorff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn er mwyn trafod sefyllfa fregus yr ysgol. Yn ystod y cyfarfod, nodwyd y bwriad i geisio caniatâd y Cabinet i symud y drafodaeth yn ei blaen trwy gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r Corff Llywodraethol a'r rhan-ddeiliad perthnasol i drafod yr heriau ac opsiynau ar gyfer y dyfodol.

6.2 Yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar 11 Chwefror 2025, sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn (PAY). Gwahoddwyd holl aelodau'r Corff Llywodraethol, rhieni a staff yr ysgol yn ogystal â'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth.

6.3 Ar 17 Mawrth 2025, cynhaliwyd y cyntaf o dri cyfarfod PAY ble amlinellwyd yr heriau oedd yn wynebu'r ysgol a chynnal trafodaeth gychwynnol i adnabod opsiynau fyddai'n ymateb i'r heriau hyn (fel y manylir ym mharagraff 5.2 uchod). Cynigiwyd esiamplau o opsiynau yn y cyfarfod, a bu i rai o ran-ddeiliaid yr ysgol gynnig opsiynau eraill er ystyriaeth.

6.4 Cynhaliwyd yr ail gyfarfod PAY ar 19 Mai 2025. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd gwerthusiad SWOT er mwyn adnabod cryfderau, cyfleoedd, gwendidau a bygythiadau'r holl opsiynau. Derbyniwyd sylwadau i'r gwerthusiad yn ystod y cyfarfod ac aethpwyd ati i addasu'r gwerthusiad er mwyn eu cynnwys.

6.5 Yn dilyn derbyn mewnbwn aelodau'r PAY, cynhaliwyd trydydd cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2025 er mwyn nodi'r heriau oedd yn wynebu'r ysgol, y rhestr hir o opsiynau y cytunwyd i'w gwerthuso ac egluro'r ffactorau fyddai'n cael eu hystyried wrth gynnal gwerthusiad opsiynau ar y rhestr hir. Nodwyd y bwriad i gynnal asesiadau effaith ar yr opsiynau cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Hydref.

## 7. ADNABOD OPSIYNAU

7.1 Gyda mewnbwn aelodau'r PAY yn ystod y cyfarfodydd lleol, crëwyd rhestr hir o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys opsiynau a gyflwynwyd gan fuddeiliaid Ysgol Baladeulyn. Yr opsiynau hyn oedd:

- Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)
- Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)
- Newid statws Ysgol Baladeulyn i fod yn ysgol Gristnogol
- Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle
- Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn
- Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn
- Cynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn

Mae Adran 40(5) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu:

*"Ni chaniateir i unrhyw newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid cymeriad crefyddol yr ysgol neu'n peri i ysgol gaffael neu golli ei chymeriad crefyddol."*

O ganlyniad, diystyriwyd un opsiwn oedd wedi ei gynnig gan ran-ddeiliaid yr ysgol, sef yr opsiwn i newid statws Ysgol Baladeulyn i fod yn ysgol Gristnogol.

**Opsiynau Eraill**

7.2 Mae ystod eang o opsiynau wedi eu hadnabod yn ystod y cyfarfodydd lleol ac rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r hyn mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi fel enghreifftiau o opsiynau posibl y gallai fod yn werth eu hystyried wrth lunio'r cynnig ar gyfer ysgol wledig, a cafodd yr enghreifftiau canlynol eu hystyried yn ychwanegol i'r opsiynau yn adran 7.1 o'r adroddiad yma. Gwelir yr opsiynau hynny isod gyda sylwadau wedi eu hychwanegu atynt:

i. Clystyru, cydweithio ag ysgolion eraill - mae'r opsiwn o ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos wedi ei gynnwys yn y gwerthusiad opsiynau.
ii. Defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi ystod o wasanaethau cymunedol – yn dilyn ystyried yr opsiwn i ddefnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma yn cynnig datrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol, gan na fyddai'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel nodir yn adran 5.2). Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r heriau a nodir yn adran 5.2 yr adroddiad, e.e. niferoedd isel o ddisgyblion, maint dosbarthiadau bychain yn parhau, ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
iii. Cydleoli gwasanaethau lleol o fewn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal - mae'r opsiwn o *ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn* a'r opsiwn o g*ynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn* wedi eu cynnig yn ystod y trafodaethau lleol ac yn cael eu hystyried yn y gwerthusiad opsiynau.
iv. Ystyried sefydlu ysgolion ar fwy nag un safle er mwyn cadw adeiladau - mae'r opsiwn yma wedi ei gynnig yn ystod y trafodaethau lleol (*uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn*) ac yn cael ei ystyried yn y gwerthusiad opsiynau.

**8. GWERTHUSO OPSIYNAU**

8.1 Yn unol â'r strategaeth *"Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd"* ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, sef:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran
- Arweinyddiaeth a staffio
- Y Gymuned
- Adnoddau ariannol
- Yr iaith Gymraeg
- Ffactorau daearyddol a theithio

8.2 Gellir gweld cymhariaeth bellach o'r holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth yn **Atodiad 1** (Tabl Gwerthusiad Opsiynau) ac mae casgliad o werthusiad yr opsiynau unigol i'w gweld isod.

8.3 Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol

Byddai'r opsiwn yma'n golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Baladeulyn.

Wedi pwyso a mesur sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol yn erbyn y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n cyfarch yr heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol a nodir yn 5.2, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion - Mae niferoedd dysgwyr yn isel (6 D – Bl.6 a 2 Meithrin) ac mae llefydd gweigion sylweddol (89% D-Bl.6 a 87% M-Bl.6) yn Ysgol Baladeulyn ac mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu bydd hyn yn parhau.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr Derbyn – Blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr Derbyn- Blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynyddoedd 2 – 6.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781) ac mae cyfartaledd cost y pen pob dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780)
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £125,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Baladeulyn. Ni fyddai'r opsiwn yma'n gwneud dim yn ymateb i'r her yma.

8.4 Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

Mae'r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffedereiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol o safbwynt cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio.

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut byddai'r ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gan fod niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr, rhagwelwyd nad oedd manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn.

Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision ffedereiddio, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiwn hwn yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion –Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn golygu fod yr her o niferoedd dysgwyr isel (6 D – Bl.6 a 2 Meithrin) a llefydd gweigion sylweddol (89% D-Bl.6 a 87% M-Bl.6) yn Ysgol Baladeulyn yn parhau.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn – blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynyddoedd 2 – 6. Gan na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir na fyddai ffederaleiddio yn ymateb i'r her o ddosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781) ac mae cyfartaledd cost y pen pob dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar ddyraniad cyllidol Ysgol Baladeulyn.
- Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau - Mae gwerth £125,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer Ysgol Baladeulyn. Gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ni fyddai'r opsiwn yma yn ymateb yn ddigonol i'r her yma.

8.5 <u>Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)</u>

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i ddysgwyr y dalgylch yn Ysgol Talysarn.

Ystyrir Ysgol Talysarn fel yr 'ysgol gyfagos' gan mae hi yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Baladeulyn. Mae'r ysgol wedi ei lleoli rhyw 2.5 milltir o safle Ysgol Baladeulyn.

Mae Ysgol Talysarn hefyd yn cynnig ei hun fel yr opsiwn amlwg ar gyfer yr ysgol amgen gan fod 63% o blant oed cynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn ac mae digon o gapasiti yno i dderbyn dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn.

Yn dilyn hyn, cynigir ymestyn dalgylch Ysgol Talysarn i gynnwys dalgylch Ysgol Baladeulyn ar gyfer y dyfodol.

Manylir ymhellach ar y rhesymeg y tu ôl i argymell y cynnig yma fel yr opsiwn a ffafrir ar gyfer ymgynghori arno yn Adran 10. Yr opsiwn a ffafrir.

8.6 <u>Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle</u>

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Baladeulyn.

Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nantlle trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu (newydd) yn cael ei ffurfio ar gyfer yr ysgol aml-safle.

O dan y model hwn, byddai goblygiadau staffio a all arwain at ansicrwydd a diswyddiadau. Byddai swyddi pob aelod o staff ym mhob un o'r ysgolion fyddai'n ffurfio rhan o'r ysgol aml-safle yn dod i ben. Byddai'r penodiadau newydd yn cael eu gwneud gan gorff llywodraethu cysgodol yr ysgol aml-safle newydd.

Mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 ddysgwr rhan amser (meithrin) ar y gofrestr. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn niferoedd dysgwyr ar safle Ysgol Baladeulyn.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Rhagwelir y byddai niferoedd dysgwyr ar safle Baladeulyn yn parhau'n isel (6 Derbyn i Bl.6 a 2 Meithrin) ynghyd â llefydd gweigion sylweddol (89% D-Bl.6 a 87% M-Bl.6).
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang - Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn - blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynyddoedd 2 - 6. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr ar safle Baladeulyn, rhagwelir y byddai dosbarthiadau bach yn parhau yn safle Baladeulyn gydag ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau.
- Adnoddau ariannol – Byddai sefydlu ysgol aml-safle yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Baladeulyn yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr safle Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn isel.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Byddai costau cynnal a chadw safle Baladeulyn yn parhau (£125,000 yn barod wedi ei adnabod).

8.7 <u>Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn</u>

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond byddai hefyd yn golygu ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig addysg arbennig i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol.

Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr ardal arbenigol, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.

Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 2 dysgwr rhan amser (meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yn yr ardal ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Baladeulyn yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol eu hwynebu, fel nodir yn adran 5.2 (uchod).

Yn dilyn pwyso a mesur manteision ac anfanteision yr opsiwn yma ar gyfer Ysgol Baladeulyn, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma yn ateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r ardal ADY o fewn adeilad Ysgol Baladeulyn, gan y byddai dysgwyr yr ardal/uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle'r ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.

- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang - Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn - blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynyddoedd 2 - 6. Byddai lleoli Uned ADY ar safle Ysgol Baladeulyn yn golygu y byddai mwy o blant ar y safle, ond byddai'r Uned yn gweithredu ar wahân i weddill Ysgol Baladeulyn ac felly ni fyddai effaith ar faint dosbarthiadau ac amrediad oedran Ysgol Baladeulyn.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781), ac mae cyfartaledd cost y pen pob dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr Ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Byddai costau cynnal a chadw Ysgol Baladeulyn yn parhau (£125,000 yn barod wedi ei adnabod).

8.8 <u>Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn</u>

Mae'r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffedereiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd y gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol o safbwynt cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos yn benodol Ysgol Talysarn. O ganlyniad, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gyda Ysgol Brynaerau.

Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut y byddai'r ysgolion a ddeuai'n rhan o'r ffederasiwn yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gan fod niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr, rhagwelir na fyddai manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn ac ychwanegu ardal arbenigol ar safle Ysgol Baladeulyn.

Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer ardal arbenigol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Noder na fyddai ychwanegu ardal arbenigol yn effeithio ar niferoedd Ysgol Baladeulyn, gan y byddai dysgwyr yr ardal ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol. Gan y byddai'r ardal ADY wedi ei lleoli o fewn adeilad Ysgol Baladeulyn, rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad yng nghapasiti'r ysgol, ac o ganlyniad, lleihad yn niferoedd llefydd gweigion Ysgol Baladeulyn.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision ffedereiddio a lleoli ardal arbenigol ADY ar safle Ysgol Baladeulyn, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn hwn yn ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned ADY o fewn adeilad Ysgol Baladeulyn, gan nad oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Baladeulyn yn

parhau pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.

- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr Derbyn – Blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr Derbyn- Blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynyddoedd 2 – 6. Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn newid hyn. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir na fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her o ddosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol - Yn 2025-26 mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr Ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £125,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Baladeulyn. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

8.9 <u>Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn</u>

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond byddai hefyd yn golygu ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd.

Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned/canolfan iaith, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.

Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 ddysgwr rhan amser (meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yr uned/ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Baladeulyn yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol eu hwynebu, fel y nodir yn adran 5.2 (uchod).

Yn dilyn pwyso a mesur manteision ac anfanteision yr opsiwn yma ar gyfer Ysgol Baladeulyn, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma yn ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned/canolfan iaith o fewn adeilad Ysgol Baladeulyn, gan y byddai dysgwyr yr uned iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle'r ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn – blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynyddoedd 2 – 6. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau yn fach gydag amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26, roedd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781), ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr Ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £125,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Baladeulyn. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

9. **ASESIADAU EFFAITH – RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOLION GWLEDIG**

Yn ogystal â'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ddatblygu unrhyw gynnig, mae'n ofynnol hefyd cynnal asesiadau penodol mewn perthynas â chynnig arfaethedig o'r math yma. Cynhaliwyd nifer o asesiadau yn unol â gofynion y Cod o'r opsiynau o dan ystyriaeth. Mae'r asesiadau llawn i'w gweld yn Atodiad 2, ac mae crynodeb o'r asesiadau hyn i'w weld yn y tabl isod:

| Opsiwn | Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg | Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio | Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned |
|---|---|---|---|
| **Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol** | Niwtral – Dim newid | Niwtral – Dim newid<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral – Dim newid<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |
| **Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)** | Niwtral/Rhannol bositif– Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |
| **Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn** | Niwtral/Rhannol bositif– Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol' | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY. | Niwtral<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |
| **Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos** | Rhannol bositif<br><br>Nodai'r asesiad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Talysarn yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn | Negyddol<br><br>Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. | Niwtral/Rhannol Negyddol<br><br>Arwain at golli ysgol ac adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.<br><br>I liniaru'r effaith ar y gymuned, nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nantlle |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(Ysgol Talysarn)** | Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn Ysgol Talysarn. | Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost, oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn.<br><br>Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Nantlle, lle'n briodol.<br><br>Nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes. |
| **Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn** | Niwtral/Rhannol bositif - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol' | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral – Dim newid i'r ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |
| **Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn** | Niwtral - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i ddarparu gwasanaeth penodol ar gyfer hwyrddyfodiaid mewn Canolfan Iaith ar safle'r ysgol. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith. | Niwtral –<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |
| **Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn** | Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Baladeulyn a byddai | Niwtral – Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfle i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br>Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion. | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |

**10. YR OPSIWN A FFAFRIR**

10.1 O'r opsiynau a ystyriwyd, yr opsiwn a gaiff ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad pellach yw'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

10.2 Caiff yr opsiwn hwn ei ffafrio am y rhesymau a ganlyn:

10.3 <u>Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion</u>

10.3.1 Yn Medi 2025 roedd 6 o ddysgwyr Derbyn – Blwyddyn 6 a 2 Meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad, mae gan Ysgol Baladeulyn 49 (89%) o lefydd gweigion yn yr ysgol (Derbyn – Blwyddyn 6). Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.

10.3.2 Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf o 23 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 yn Medi 2017 i 6 dysgwr yn Medi 2025, sef gostyngiad o dros 74%.

10.3.3 Yn ôl y rhagamcanion a grëwyd yn Medi 2025, rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf. Gwelir isod niferoedd Medi 2025 a rhagamcanion niferoedd Ysgol Baladeulyn ar gyfer 2026-28.

| | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm D-Bl.6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd Medi 2025** | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | 2 | 1 | 0 | 6 |
| **Rhagamcanion Medi 2026** | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | 2 | 1 | 8 |
| **Rhagamcanion Medi 2027** | 1 | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | 2 | 8 |
| **Rhagamcanion Medi 2028** | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | 7 |

10.3.4 Yn Medi 2025 roedd 84 o ddysgwyr (Derbyn – Blwyddyn 6) a 17 o ddysgwyr Meithrin yn mynychu Ysgol Talysarn. Yn ôl y rhagamcanion Medi 2025, rhagwelir y bydd 85 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 11 dysgwyr Meithrin yn Ysgol Talysarn ym Medi 2028.

10.3.5 Mae gan Ysgol Talysarn gapasiti o 91 (Derbyn – Bl. 6), sy'n golygu fod gan Ysgol Talysarn 8% o lefydd gweigion. Wrth gynnwys capasiti a niferoedd yr ysgol, mae 7 o lefydd gweigion yn Ysgol Talysarn.

10.3.6 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) Llywodraeth Cymru yn nodi fod “gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau’n cael eu gwastraffu’n ddiangen. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol”. O ganlyniad i’r niferoedd isel, mae 89% (49 mewn nifer) o lefydd gweigion (D-Bl-6) yn Ysgol Baladeulyn.

10.3.7 Wrth ystyried capasiti Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn ar y cyd (sef capasiti o 146 D- Bl.6 a 166 M – Bl.6), rhagwelir y byddai gweithredu’r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr y dalgylch i Ysgol Talysarn yn lleihau’r cyfanswm nifer o lefydd gweigion yn ardal dalgylch Ysgol Baladeulyn ac ardal dalgylch Ysgol Talysarn o 56 (38%) i 1 (1%) (Derbyn-Bl.6), ac o 52 (31%) i 0 (Meithrin-Bl.6) .

## 10.4 Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran

Fel y gwelir o’r tabl isod mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a’r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn – blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a’r llall ar gyfer 4 dysgwr blynyddoedd 2 – 6. Cyfartaledd maint dosbarthiadau (derbyn – blwyddyn 6) yn Ysgol Baladeulyn ydi 3 dysgwr.

Mae’r tabl yn dangos bod 5 dosbarth (derbyn – blwyddyn 6) yn Ysgol Talysarn (Medi 2025). Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Talysarn yw 21 dysgwr.

<table>
<tr><th></th><th colspan="9">Blwyddyn</th><th></th></tr>
<tr><th>Ysgol</th><th>Meithrin</th><th>0</th><th colspan="2">1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th><th>Cyfartaledd maint dosbarthiadau</th></tr>
<tr><td>Baladeulyn</td><td>2</td><td>0</td><td colspan="2">2</td><td>1</td><td>0</td><td>2</td><td>1</td><td>0</td><td rowspan="3">3</td></tr>
<tr><td>y.b.</td><td colspan="3">Dosbarth 3</td><td colspan="6">Dosbarth 5</td></tr>
<tr><td>y.p.</td><td colspan="2"></td><td colspan="2">Dosbarth 2</td><td colspan="5">Dosbarth 4</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Talysarn</td><td>17</td><td>11</td><td colspan="2">10</td><td>11</td><td>15</td><td>15</td><td>11</td><td>11</td><td rowspan="2">21</td></tr>
<tr><td>17</td><td colspan="2">Dosbarth 16</td><td colspan="2">Dosbarth 16</td><td colspan="2">Dosbarth 30</td><td colspan="2">Dosbarth 22</td></tr>
</table>

O ganlyniad, rhagwelir y byddai trosglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn golygu fod y plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau maint mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o’r un grŵp oedran.

## 10.5 Ffactorau daearyddol a teithio

10.5.1 Nodir yn y Strategaeth “Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd” y dylid ceisio cyfyngu teithio i uchafswm o 30 munud o deithio unffordd rhwng y cartref a’r ysgol. O weithredu’r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai pob dysgwr presennol y dalgylch o fewn cyrraedd rhesymol (llai na 30 munud o deithio) i’r ysgol amgen, sef Ysgol Talysarn.

10.5.2 Yn dilyn asesu pellter Ysgol Talysarn o Ysgol Baladeulyn a diogelwch llwybrau cerdded a beicio i’r ysgol amgen, deuir i’r casgliad, gan fod y pellter dros 2 filltir a’r llwybrau yn anaddas i blant oed cynradd gerdded na beicio, y byddai cludiant yn cael ei gynnig i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir. Rhagwelir y byddai cost cludiant oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn.

## 10.6 Adnoddau Ariannol

10.6.1 Yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr yn Ysgol Baladeulyn nid yw'r dyraniad ar sail y dysgwyr yn ddigonol i allu cynnal yr ysgol. O ganlyniad, mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £56,781 i Ysgol Baladeulyn eleni (2025-26) trwy'r Polisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio.

10.6.2 Mae dyraniad Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn ar gyfer y flwyddyn 2025-26, wedi eu selio ar niferoedd Medi 2024 a gellir gweld y symiau y mae'r 2 ysgol yn eu derbyn isod:

| Ysgol | Sail dyraniad (Niferoedd Medi 2024) | | | Dyraniad craidd | Dyraniad cyllidol ychwanegol (gwarchodaeth) | Cyfanswm | £ y dysgwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M | CS | CA2 | | | | |
| Baladeulyn | 0 | 3 | 10 | £137,610 | £56,781 | £194,391 | £14,953 |
| Talysarn | 10 | 36 | 50 | £521,659 | £0 | £521,659 | £5,771 |
| **Cyfanswm** | 10 | 39 | 60 | £659,269 | £56,781 | £716,050 | - |

10.6.3 Mae cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn £14,953 ac yn £5,771 yn Ysgol Talysarn. Cyfartaledd Sirol cost y dysgwr 2025-26 yw £5,780. Golyga hyn fod y gost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn £9,182 yn uwch na'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod.

10.6.4. Dyrennir cyfanswm o £716,050 i'r ddwy ysgol yn y flwyddyn ariannol 2025-26. Nid yw Ysgol Talysarn yn derbyn swm ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae niferoedd dysgwyr presennol yr ysgol yn denu cyllideb ddigonol i gynnal lefelau staffio priodol.

10.6.5 O safbwynt costau refeniw, pe gweithredir y cynnig, a pe byddair holl ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn trosglwyddo i Talysarn, yn seiliedig ar gyllideb 2025-26 (sy'n seiliedig ar niferoedd dysgwyr Medi 2024)

- rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £129,191, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £30,000) - sef cyfanswm o oddeutu £99,191 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai cyllideb dyraniad craidd Ysgol Talysarn yn cynyddu i £604,522 a'r gost fesul dysgwr yn £5,846

10.6.6 Pe gweithredir y cynnig, a pe byddai holl ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn, yn seiliedig ar amcangyfrif o gyllideb 2026-27, sef blwyddyn gweithredu'r cynnig arfaethedig (sy'n seiliedig ar ragamcanion niferoedd dysgwyr a ddarparwyd gan benaethiaid yr ysgolion yn Medi 2024):

- rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £144,338, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £30,000) - sef cyfanswm o oddeutu £114,338 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai cyllideb dyraniad craidd Ysgol Talysarn yn cynyddu i £576,294 a'r gost fesul dysgwr yn £5,966.

10.6.7 Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.

10.6.8 Noder nad oes costau cyfalaf ynghlwm â'r cynnig arfaethedig.

## 10.7 Arweinyddiaeth a Staffio

10.7.1 Mae strwythur staffio presennol Ysgol Baladeulyn yn cynnwys Pennaeth mewn gofal llawn amser sy'n gwario 80% o'i amser yn dysgu, ynghyd â 2 o gymorthyddion dysgu.

10.7.2 Yn Ysgol Talysarn, ceir Pennaeth sydd yn gwario 100% o'i hamser yn arwain ffederasiwn Ysgol Talysarn (3 diwrnod) ac Ysgol Brynaerau (2 ddiwrnod). Mae hefyd dirprwy llawn amser, dau athro llawn amser ac un athro 0.8 (4 diwrnod), 7 cymhorthydd, ynghyd â swyddog clerigol rhan amser.

**10.8 Y Gymuned**

10.8.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith cymunedol ar y rhestr o opsiynau a nodir ym mharagraff 6.3. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

10.8.2 Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (63%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.

10.8.3 Er nad oes defnydd cymunedol o adeilad Ysgol Baladeulyn, mae'r ysgol yn ymwneud â'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau y gymuned yn achlysurol.

10.8.4 Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle'n briodol.

10.8.5 Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.

**10.9 Yr Iaith Gymraeg**

10.9.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

10.9.2 Nodai'r asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg y rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith rhannol ar rai elfennau yng nghyd-destun y Gymraeg, yn bennaf:

- byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran, gallai'r cynnig gryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr o fewn y dosbarth.
- y byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai dysgwyr Baladeulyn yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion y tu hwnt i oriau ysgol.
- Y byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai llai o rieni yn debygol o gyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Baladeulyn wrth ddanfon a gollwng plant.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir na fyddai effaith ar ddefnydd dysgwyr dalgylch Baladeulyn o'r Gymraeg mewn cyd-destun ffurfiol yn yr ysgol. Serch hynny, rhagwelir y byddai llai o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol y tu hwnt i oriau ysgol.

**10.10 Ansawdd a safonau addysg**

10.10.1 Cynhaliwyd asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar yr holl opsiynau. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

10.10.2 Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, mae Ysgol Talysarn yn cynnig addysg o ansawdd a safon sy'n gyfatebol, ag Ysgol Baladeulyn, fan lleiaf.

10.10.3 Cafodd Ysgol Baladeulyn ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017, ble daethpwyd i'r casgliad mai Da oedd perfformiad presennol yr ysgol. Bu i Ysgol Talysarn gael eu harolygu diwethaf gan Estyn yn 2017, ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn erbyn y cwestiynau deilliannau a'r ddarpariaeth yn Dda, a'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn Rhagorol.

10.10.4 Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau pe gweithredir y cynnig arfaethedig. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn Ysgol Talysarn.

10.10.5 O ganlyniad, rhagwelir mai rhannol bositif fyddai'r effaith tebygol o safbwynt ansawdd a safonau addysg i ddysgwyr yn deillio o'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

**10.11 Cyflwr ac addasrwydd adeiladau**

10.11.1 Nodir asesiad cyflwr diweddaraf yr Awdurdod fod cyflwr adeilad Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn 'B'.


10.11.2 Mae gwerth £125,000 o waith wedi ei adnabod i wella cyflwr ac addasrwydd Ysgol Baladeulyn.

## 11. GOBLYGIADAU'R CYNNIG


11.1 Dalgylchoedd mynediad i Ysgolion

11.1.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch Ysgol Talysarn yn cael ei addasu i gynnwys ardal dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn.

**Map 1: Dalgylchoedd presennol Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn**




**Map 2: Dalgylch Ysgol Talysarn os gweithredir y cynnig arfaethedig**




11.2 <u>Cludiant</u>

11.2.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig lle yn Ysgol Talysarn ac yn derbyn cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir. Rhagwelir y byddai cost blynyddol cludiant o gwmpas £17,000-£30,000.

11.3 <u>Ystyriaethau Staffio</u>

11.3.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai goblygiadau staffio allasai arwain at ddiswyddiadau. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau fyddai'n deillio o'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

12. **YSTYRIAETHAU ERAILL**

12.1.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018

12.1.2 Bydd unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018).

12.1.3 Asesiad effaith cydraddoldeb

12.1.4 Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig arfaethedig. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 2.

12.1.5 Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

12.1.6 Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y mwyafrif o nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu.

12.1.7 Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd mwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

12.1.8 Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

12.1.9 Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb.

12.1.10 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

12.1.11 Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 2.

12.1.12 Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith_negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

**13. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

13.1 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a chanllawiau'r Cod

Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Rhagwelir y byddai'r cyfnod ymgynghori hwnnw yn cael ei gynnal cyn diwedd tymor yr Hydref.

13.2 Wedi hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, a phenderfynu a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ar y cynnig ai peidio. Pe byddai Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, caniateir cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig, sef y 'Cyfnod Gwrthwynebu'. Yn dilyn hyn, cyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymatebion y Cyngor iddynt.

---

**14 Atodiadau**

**Atodiad 1:** Tabl Gwerthusiad Opsiynau
**Atodiad 2:** Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith Ieithyddol
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

**Atodiad 3:** Pecyn cefndirol gan gynnwys cyflwyniadau a chofnodion y cyfarfodydd lleol.

---

**16 Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

"Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"O safbwynt ariannol, mae'n amlwg nad yw sefyllfa bresennol Ysgol Baladeulyn yn gynaliadwy, o ystyried fod 89% o lefydd yr ysgol yn wag. Mae'r adroddiad yn dangos fod asesiad wedi ei gynnal o'r opsiynau sydd ar gael, ac rwyf yn fodlon â chadernid yr amcangyfrifon ariannol sydd wedi eu nodi ynddo. Rwyf felly'n cefnogi'r penderfyniad a geisir"

**17 Sylwadau'r Aelod Lleol**

*"Siom o'r mwyaf ydi darllen penderfyniad yr adran addysg ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026.*

*Mi fydd cymuned Nantlle yn drist iawn yn clywed y argymhelliad yma. Yn fy marn i, mi fydd effaith negyddol ar y gymuned, a fyddai cau Ysgol Baladeulyn yn ergyd drom i bentref Nantlle. Mae yr ysgol yn galon y pentref ac yn ymwneud a'i chymuned a defnyddio cyfleusterau y pentref yn achlysurol. Pe byddai cynnig arfaethedig yma'n cael ei wireddu ni fyddai teuluoedd Cymru Cymraeg am ddod i fyw i'r pentref i fagu ei plant a rwyf yn tybio bydd mewnfudwyr yn prynu y tai ac yn gwneud y pentref yn le diarth.*

*Mae 25 o ysgolion wedi cau yn Gwynedd ers 2009 sydd yn niweidiol iawn i ein cymunedau. Bod o yn effaith ar y plant, rhieni, y gymuned a'r iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael effaith negyddol i drigolion Nantlle enwedig i'r rhai sydd wedi byw yn y pentref drwy ei bywydau ac yn cofio yr addysg gwych gafwyd yn Ysgol Baladeulyn gyda llawer wedi mynd ymlaen i gael gyrfaoedd gwych.*

*Bu i swyddogion o'r Adran Addysg gyfarfod â Chorff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn er mwyn trafod sefyllfa fregus yr ysgol dros y flwyddyn diwethaf a hoffwn ddiolch iddynt am rhoid ei amser i ddod i ein gweld i'r ysgol. Hefyd diolch i Dewi Jones, aelod o'r cabinet dros addysg am fod yno i ateb cwestiynau ac hefyd fod ochor arall i'r ffon pam fod galw. Be oedd yn glir yn y trafodaethau gyda rhieni y plant sydd yn mynychu yr ysgol oedd bod nhw yn ddiolchgar o gael rhoid ei plant mewn ysgol bychan oherwydd yr addysg gwych un am un oedd y plant yn ei gael. Ac hefyd bod gan yr athrawon fwy o amser gyda yr unigolion a oedd gyda anghenion dysgu ychwanegol.*

*Rwyf yn glir yn fy meddwl mae bosib cadw Ysgol Baladeulyn yn agored drwy yr opsiwn o Ffederaleiddio gyda ysgol Talysarn gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu arbennig ADY yn Ysgol Baladeulyn. Mae'r Cod trefniadaeth ysgolion yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig drwy cyd-weithio a cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd gydweithio. Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol Talysarn o dan arweiniad pennaeth a un corff llywodraethwyr.*

*Mi fydd yna Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng ysgol Talysarn ac Ysgol Baladeulyn a chadw'r ysgol yn agored fel adnodd cymunedol yn Nantlle. Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau ac yn costio llai i'r Cyngor. Hefyd cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr ADY yma yn Dyffryn Nantlle. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y plant sydd angen cymorth gyda ADY ac ar y rhieni sydd efallai yn gorfod trafaelio i Gaernarfon i gael y gwasanaeth yma.*

*Drwy ddewis yr opsiwn yma mi fydd dim rhaid cau ysgol gwledig arall yma yn Gwynedd ac yn tawelu meddyliau y rhieni a'r plant sydd yn mynychu ysgol Baladeulyn a bydd drysau yr ysgol yn aros yn agored drwy fformat newydd ac yn cadw Nantlle yn bentref lle all deuluoedd magu ei plant mewn gymdeithas Cymraeg gyda hyder am ddyfodol yr ysgol a'r iaith."*